Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 3 Gorffennaf 2024, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. M. Blakely-Walker Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs D. L. King, Ms. V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**7. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Simmons.

**8. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 8.1 | **SITE LOCATION:** Tir oddi ar Rodfa Westbourne, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Butterfield<br>A.R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2022/1008<br><br>**DISGRIFIAD BLAENOROL:** Adeiladu pump annedd yn cynnwys llunio mynedfa newydd i gerbydau, creu man storio gwastraff, ffurfio mannau parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| | **<u>DISGRIFIAD DIWYGIEDIG</u>:** Adeiladu pedwar annedd yn cynnwys llunio mynedfa newydd i gerbydau, creu man storio gwastraff, ffurfio mannau parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig.<br><br>**D.S. Roedd y Cyngor Tref yn ymwybodol pan ymatebodd i'r cais blaenorol fod y cais am bedwar annedd yn hytrach na'r pump a nodwyd yn nisgrifiad y cais. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad ar y cais a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi pump annedd ac ymatebodd y Cyngor Tref i'r disgrifiad hwnnw.**<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Nigel Gizzi o gwmni J&T Gizzi Limited, The Gatehouse, Bodoryn Fawr Farm, San Sior, Abergele<br><br>***<u>PENDERFYNIAD:</u>*** *Gwrthwynebiad ar y seiliau isod:*<br><br>- *Mae'r Cyngor Tref yn ystyried y byddai'r datblygiad yn cynrychioli gor-ddwysau'r safle gan gael effaith andwyol ar eiddo cyfagos a phreswylwyr yn y dyfodol*<br><br>- *Mae'r Cyngor Tref o'r farn nad yw'r unig fynedfa i gerbydau i'r safle (Rhodfa Westbourne) yn medru ymdopi â'r lefel defnydd sy'n bodoli eisoes, fel y dangoswyd yn y gwrthwynebiadau gan drigolion*<br><br>*Dymuna'r Cyngor Tref wneud cais ffurfiol i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ystyried cynnal ymweliad â'r safle i werthfawrogi'n llawn yr effaith y byddai'r datblygiad arfaethedig yn ei gael ar y lefelau traffig sy'n bodoli eisoes.* |

9. **<u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd yr Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...